

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar [Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)

CYPE SP 26

Ymateb gan: Rebecca Williams, Swyddog Polisi ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol, UCAC

Response from: Rebecca Williams, Deputy General Secretary and Policy Officer, UCAC

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education

TGCh

Mae dyfodiad y coronafeirws a'r cyfnodau clo wedi arwain at ddatblygiadau o ran y defnydd o dechnoleg mewn addysg na fyddai byth wedi digwydd mor gyflym dan unrhyw amgylchiadau eraill. Mae'n wir i ddweud bod chwyldro technolegol wedi digwydd, a hynny mewn dull cymharol fyrfyr.

Mae athrawon wedi arbrofi, methu, datblygu, ac arloesi yn ystod cyfnodau clo. Ambell waith, mae hynny wedi digwydd ar sail ymchwilio personol, neu mewn trafodaeth gyda chydweithwyr, ambell waith gydag arweiniad gan yr ysgol, yr awdurdod neu'r consortiwm rhanbarthol. Ond mae gweithwyr byd addysg, ar bob lefel, oll wedi bod yn ceisio darganfod eu llwybr trwy'r ddrysa.

Mae buddsoddiad sylweddol a chymeradwy wedi bod gan Lywodraeth Cymru i feddalwedd ac isadeiledd technolegol, gan gynnwys platfform chwyldroadol HWB ei hun. Gan fod llawer o hyn eisoes ar waith cyn y pandemig, talodd ar ei ganfed pan oedd y system gyfan dan bwysau.

Mae athrawon wedi gweld budd y datblygiadau, ac am ddatblygu ymhellach. Maent am goleddu dulliau'r unfed ganrif ar hugain, ond mae angen cefnogaeth strategol i alluogi hynny i ddigwydd, a hynny mewn perthynas ag isadeiledd a sgiliau fel ei gilydd.



Credwn mai nawr yw'r amser i wneud ymchwiliad i'r sefyllfa mewn ysgolion, i ddadansoddi'r camau positif sydd eisoes wedi digwydd (naill ai'n strategol neu'n fyrfyfyr), a gwneud argymhellion ynghylch ble mae angen datblygu ymhellach.

Darpariaeth i hwyrddyfodiaid

Mae cynyddu'r ddarpariaeth drochi fwyaf effeithiol i hwyrddyfodiaid, gan ddatblygu pwyntiau mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd ac uwchradd, yn un o nodau Cymraeg 2050.

Mae ymchwil wedi'i gyflawni yn y maes yn ddiweddar: 'Trochi hwyr a darpariaeth ieithyddol ddwys: adolygiad cwmpasu cyflym (crynodeb): Adolygiad cwmpasu cyflym o'r dystiolaeth sy'n bodoli mewn perthynas â throchi hwyr a darpariaeth ieithyddol ddwys' (<https://llyw.cymru/trochi-hwyr-darpariaeth-ieithyddol-ddwys-adolygiad-cwmpasu-cyflym-crynodeb.html>)

Awgryma'r astudiaeth hon feysydd ar gyfer ymchwil bellach, ac awgrymwn y gallai ymchwiliad gan y Pwyllgor gyfrannu at hynny. Gellid ystyried gwneud arolwg o'r modelau a methodolegau amrywiol o ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes, a chasglu tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd y gwahanol fodelau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd penodol (e.e. plant sy'n symud i Gymru â'r Saesneg yn iaith gyntaf, plant sydd â iaith/ieithoedd eraill yn iaith gyntaf, plant sy'n ffoaduriaid). Mae'r defnydd o dechnoleg yn y maes hwn erbyn hyn yn ystyriaeth amlwg.

Awgryma'r astudiaeth uchod hefyd y gellid rhoi ystyriaeth i'r ffyrdd y gallai pandemig COVID-19 effeithio ar ddatblygiad iaith plant mewn addysg drochi Gymraeg, a'r angen i 'ail-drochi' ar ôl cyfnod heb gysylltiad cyson â'r Gymraeg.

Teimlwn y byddai ymchwiliad gan y Pwyllgor yn darparu sylfaen o wybodaeth hynod ddefnyddiol, ac argymhellion adeiladol ynghylch y camau nesaf sydd angen eu cymryd yn y maes hwn.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar fin dod i rym, er bod elfen o ohirio yn sgil y pandemig.

Mae nifer o agweddau o weithrediad y trefniadau newydd fydd angen sylw dros y blynyddoedd i ddod, wrth i'r drefn ymsefydlu ac i'r sgil effeithiau ddod i'r amlwg. Rhai agweddau y byddem yn argymhell y bydd angen sylw arnynt yw:

- Ariannu: A yw'n ddigonol? A yw'r dyraniad a'r dulliau dyrannu yn effeithiol?
- Statws a chydabyddiaeth Cydlynwyr ADY: O ran tâl ac amser digyswllt i gyflawni'r gwaith
- Effaith ar lwyth gwaith y gweithlu addysg ehangach



- Effeithiolrwydd y cydweithio rhwng sectorau a haenau (ysgolion, awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, y sector iechyd)
- Digonolrwydd y Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol yn y Gymraeg, gan gynnwys effeithiolrwydd camau i ddatblygu'r gweithluoedd perthnasol

Mae'n debygol y bydd llwyth achosion y Tribiwnlys yn ffon fesur o'r materion uchod.

Nid ydym o'r farn mai nawr yw'r amser i gynnal ymchwiliad, ond hoffem argymhell bod ymchwiliad cael ei amserlenni ar gyfer tua 18-24 mis o nawr, fel bod modd adnabod y cryfderau a'r gwendidau, ac unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen yn weddol gynnar.

Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education

Llwybrau mynediad Addysg Gychwynol Athrawon

Mae tirwedd darpariaeth Addysg Gychwynol Athrawon wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phob darparwr erbyn hyn yn gorfod gwneud cais am achrediad trwy'r Bwrdd Achredu AGA ar sail meini prawf penodol. Mae newidiadau wedi digwydd yn arbennig i'r ddarpariaeth 'â chyflog' a rhan amser.

Er gwaethaf sôn bod recriwtio i'r cyrsiau hyn wedi bod yn well yn sgil y pandemig, mae pryder yn parhau ynghylch y bwlch rhwng y niferoedd sy'n gadael y proffesiwn, a'r sawl sy'n ymuno.

Ond nid yw'n fater o niferoedd yn unig. A ydym yn recriwtio ac yn hyfforddi athrawon yn unol â gofynion cyfredol, a gofynion rhagweladwy, system addysg Cymru? Sut ydyn ni'n mesur y gofynion hynny - a sut mae hynny'n cael ei drosglwyddo i brosesau recriwtio i addysg gychwynol?

Mae nifer o feysydd prinder amlwg. A ydym yn gweithredu'n effeithiol i geisio llenwi'r bylchau hyn?

A yw natur y llwybrau mynediad yn rhy gyfyng, ac yn rhwystro darpar athrawon rhag hyfforddi? Os felly, a yw hynny'n ffactor sy'n cyfrannu at ddiffyg amrywiaeth o fewn y gweithlu? A yw'n arwain at ormod o bobl yn gweithio fel athrawon heb gymhwyso yn ein hysgolion?

A yw'r meini prawf ar gyfer achredu darpariaeth addysg gychwynol yn addas at eu pwrpas yng nghyd-destun system sy'n trawsnewid yn gyflym?

Rydym wedi ein hargyhoeddi bod lle am welliant sylweddol o ran prosesau cynllunio'r gweithlu addysg, ac y byddai ymchwiliad gan y Pwyllgor i'r maes hwn yn gyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth.



Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)

Unwaith y bydd Cwricwlwm i Gymru wedi dechrau ymsefydlu, gallai fod yn werth gwneud **ymchwiliad dilynol i Cadernid Meddwl**, sy'n edrych ar les disgyblion/myfyrwyr a staff y gweithlu addysg yn sgil effeithiau hirdymor y pandemig (gan gynnwys Covid hir), ac unrhyw newidiadau/gwelliannau sydd wedi dod yn sgil Cwricwlwm i Gymru, a strategaethau diweddar Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Awgrymwn y byddai ail hanner cyfnod y Senedd hwn yn ddelfrydol ar gyfer ymchwiliad o'r fath.

Thema 4: Plant a phobl Ifanc | Theme 4: Children and young people

Datblygu system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (AGPC/ECEC)

Ar hyn o bryd mae rhaniadau ffug, mympwyol (*arbitrary*) a phroblematig rhwng gofal plentyndod cynnar ac addysg plentyndod cynnar – hynny yw, cyn oedran ysgol statudol. Mae'r rhaniadau hyn yn arwain at ddiffyg cydraddoldeb o ran darpariaeth i deuluoedd; ariannu i leoliadau; a statws, cyflog a chyfleoedd datblygu i'r gweithlu.

